Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymraeg Pwll Coch

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae arweinwyr a staff Ysgol Gymraeg Pwll Coch wedi datblygu gweledigaeth sy'n canolbwyntio ar les, cynnydd mewn medrau a chodi safonau'r disgyblion. Mae'r ymdeimlad cynyddol o waith tîm yn cyfrannu'n dda at gydweithio pwrpasol i wella gwaith yr ysgol. Mae staff yn hyrwyddo cynwysoldeb ac yn llwyddo i integreiddio'r ethos hwn yn gryf ym mron bob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae disgyblion y Ganolfan Adnoddau Arbennig (CAA) yn aelodau gwerthfawr o gymuned yr ysgol ac yn cymryd rhan gwbl naturiol yng ngweithgareddau'r ysgol. Ar draws yr ysgol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag addysg dysgu ychwanegol (ADY) wedi'i chydlynu'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau cymdeithasol, iaith a rhifedd sydd ar y cam datblygu disgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Mae'r addysgu yn cefnogi y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY a'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan dlodi, i wneud cynnydd da.

Yn ddiweddar, mae staff wedi mireinio eu dulliau addysgu mathemateg, gan ddarparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r maes dysgu. Mae hyn wedi gwella gallu'r disgyblion i ddefnyddio a chymhwyso eu medrau mewn meysydd dysgu eraill. Mae staff yn gweithredu fel modelau rôl iaith graenus sy'n dylanwadu'n effeithiol ar ddatblygu medrau llafaredd cryf disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu cariad at ddarllen yn llwyddiannus ac yn meddu ar fedrau ysgrifennu cadarn.

Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ddulliau holi i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion ac i asesu eu cynnydd mewn sesiynau dysgu. At ei gilydd, ar draws yr ysgol, nid yw'r gweithgareddau dysgu bob amser yn ddigon cyson i sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio i wneud cynnydd cyson. Yn gyffredinol, nid yw'r ddarpariaeth yn galluogi disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu a sut i gyflawni a chyflwyno eu gwaith.

Mae gan staff berthynas gadarnhaol â rhieni. Mae arweinwyr wedi adeiladu perthynas waith lwyddiannus rhwng y cartref a'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn ymwybodol o bryd i gefnogi'r ysgol a phryd i'w herio, ac maent yn cymryd camau da i ddatblygu gwell dealltwriaeth o effaith gwaith bob dydd yr ysgol ar les a dysgu'r disgyblion.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud 2 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Cysoni arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol a chodi disgwyliadau staff i ddarparu her gyson ar gyfer pob disgybl**

**A2 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/12/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.